



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adeiladu Ymatebion Effeithiol: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 45/2014

Yn 2013, comisiynwyd ymchwilwyr annibynnol o Ganolfan Ymchwil Ryngwladol Connect ar Drais Rhyngbersonol, sy'n rhan o'r Ysgol Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Canol Lancashire, i gynnal ymchwil ar wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Nod yr ymchwil oedd hysbysu'r Bil Dileu Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru), sydd ar ddod, a gweithredu'r ddeddfwriaeth a pholisi yn y dyfodol yn fwy cyffredinol, yn ogystal â hysbysu penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

1. Cyflwyniad

Mae cylch gorchwyl yr adolygiad yn cwmpasu'r canlynol:

- Cam-drin domestig, gan gynnwys yr hyn a brofir mewn perthnasoedd Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) a cham-drin pobl hŷn.
- Trais yn erbyn menywod, gan gynnwys llurgunio organau rhywiol menywod (FGM), priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd.
- Trais rhywiol, yn cynnwys treisio, ymosodiadau rhywiol ac aflonyddu rhywiol.
- Ecsbloetio rhywiol, yn cynnwys puteindra a masnachu pobl¹ at ddibenion rhywiol.
- Gwasanaethau ar gyfer menywod a dynion sy'n ddi-ddeddfwyr neu'n gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Nid yw'r adolygiad yn cwmpasu gwasanaethau cyfiawnder troseddol na gwasanaethau tai, a heblaw am waith ataliaeth, eithriwyd gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru o'r astudiaeth hon yn ogystal.

2. Nodau

Nodau'r ymchwil oedd:

1. Llunio teipoleg ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio i atal ac ymateb i bob math ar drais domestig a rhywiol;
2. Adolygu'r llenyddiaeth ryngwladol ar wasanaethau sy'n atal ac yn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys tystiolaeth o effeithiolrwydd;
3. Mapio darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru (heb gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan adrannau tai, llysoedd teulu a systemau cyfiawnder troseddol);
4. Amcangyfrif nifer yr achosion o wahanol fathau o drais domestig a rhywiol a nodi'r angen cysylltiedig am wasanaethau;
5. Cyflwyno argymhellion o'r ymchwil i hysbysu strategaeth gyllido Llywodraeth Cymru.

¹ Ym mis Ionawr 2014 newidiodd Llywodraeth Cymru ei defnydd o'r term masnachu pobl i gaethwasiaeth fodern. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term masnachu pobl; gan gyfeirio'n benodol at rai sy'n cael eu masnachu ar gyfer ecsbloetio rhywiol.

3. Dulliau

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau ymchwil meintiol ac ansoddol i gasglu tystiolaeth o ymchwil ac ystadegau a gyhoeddwyd, i fapio gwasanaethau ledled Cymru, ac i ddod i ddeall profiadau darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Roedd pum elfen i'r ymchwil:

1. Dadansoddi data ystadegol gan yr heddlu yng Nghymru, y Swyddfa Gartref, yr Uned Priodas dan Orfod (FMU) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), er mwyn asesu nifer yr achosion o wahanol fathau o drais domestig a rhywiol ledled Cymru.

2. Derbyniodd arolwg mapio ar-lein, yn Gymraeg a Saesneg, ymateb gan 146 o sefydliadau oedd yn darparu 349 o wasanaethau arbenigol, cyhoeddus a sector gwirfoddol ledled Cymru.

Cysylltwyd â gwasanaethau drwy ddefnyddio tair rhestr bostio a luniwyd gyda chymorth

Llywodraeth Cymru a chyrff eraill, a thrwy gysylltu â sefydliadau megis CAADA², AVA³ a Llinell Gymorth

² Coordinated Action Against Domestic Abuse

Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais
Rhywiol Cymru Gyfan drwy'r post.

3. Ymgynghori â phum grŵp o
fenywod (cyfanswm o 53 o
gyfranogwyr) a oedd wedi
defnyddio gwasanaethau yng
Ngogledd a De Cymru.
Defnyddiwyd vignettes i sicrhau
bod y trafodaethau'n troi o gwmpas
tri chwestiwn allweddol: pa
wasanaethau sydd ar gael, pa
wasanaethau ddylai fod ar gael, a
beth yw nodweddion gwasanaeth o
ansawdd da?

4. Cyfweiliadau lled-strwythuredig
dros y ffôn â 31 o randdeiliaid a
ddewiswyd at y diben (23 darparwr
gwasanaeth ac 8 arweinydd
strategol ar lefel genedlaethol a
rhanbarthol sy'n cyflawni rolau
comisiynu neu bolisi).

5. Adolygiad o lenyddiaeth
ymchwil yn y Deyrnas Unedig ac yn
rhyngwladol ar argaeledd ac
effeithiolrwydd ymatebion
gwasanaeth i drais yn erbyn
menywod, cam-drin domestig a
thrais rhywiol.

³ Against Violence and Abuse, grŵp yn
Llundain sy'n gweithredu ar draws y DU

4. Nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru

Mae trais yn erbyn menywod, cam-
drin domestig⁴ a thrais rhywiol yn
broblemau arwyddocaol yng
Nghymru. Er bod diffyg data
cadarn, dengys yr amcangyfrifon
fod cam-drin domestig yn effeithio
ar 11% o fenywod a 5% o ddynion
bob blwyddyn yng Nghymru⁵, bod
trais rhywiol yn effeithio ar 3.2% o
fenywod a 0.7% o ddynion⁶; a bod
3.1% o bobl hŷn yn cael eu cam-
drin neu eu hesgeuluso gan
ofalwyr⁷. Dengys yr amcangyfrifon
diweddaraf sydd ar gael fod 1% o'r
achosion sy'n derbyn sylw gan yr
FMU yn deillio o Gymru. Yn 2013,
nododd y Mekanwaith Atgyfeirio

⁴ Mae "Cam-drin Domestig" (Cymru) a
"Domestic Violence" (Lloegr) yn cwmpasu
cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol,
emosiynol neu ariannol. Yn yr adroddiad
hwn defnyddir "cam-drin domestig" i
gyfeirio at y cysyniad ehangach hwn oni
nodir fel arall.

⁵ Robinson, A., Brisbane, J., Farrar, J.
Hardy, P., Jones, B., Pickles, J.,
Shepherd, J. (2012) The Welsh
Government's proposed 'Ending Violence
Against Women and Domestic Abuse
(Wales) Bill': Argymhellion y Grŵp
Gorchwyl a Gorffen, Adroddiad Terfynol.

⁶ Ibid, 2012

⁷ O'Keeffe et al (2007) *UK, Study of Abuse
and Neglect of Older People. Prevalence
Survey Report* ar gyfer Comic Relief a'r
Adran Iechyd. "Gofalwyr" yn y cyd-destun
hwn yw aelod o'r teulu, ffrind agos neu
weithiwr gofal.

Cenedlaethol (NRM) fod 18 o fenywod yng Nghymru wedi cael eu masnachu er mwyn eu hecsbloetio'n rhywiol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 80% ers 2012. Ni lwyddwyd i gael hyd i ddata ynghylch nifer yr achosion o FGM yng Nghymru, ond mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod tua 0.4% o'r holl enedigaethau yng Nghymru yn digwydd i fenywod sydd â FGM.

Cam-drin domestig yw'r math amlycaf o drais yn erbyn menywod. Roedd tebygolrwydd sylweddol fwy bod pobl ifanc 16-24 oed wedi profi cam-drin domestig mewn perthynas agos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn 2011-2012. Mae'r risg uwch hon yn bresennol, hyd yn oed o roi ystyriaeth i effeithiau dryslyd y risgiau uwch a ddaw i'w rhan o ran yfed alcohol, meddwdod, a chymryd cyffuriau anghyfreithlon⁸. Yn ystod eu hoes (ar ôl cyrraedd 16 oed), mae nifer sylweddol uwch o fenywod (31%) na dynion (18%) yng Nghymru a Lloegr yn dioddef cam-drin

⁸ Smith, K. (Ed.), Osborne, S., Lau, I. and Britton, A. (2012). Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2010/11 (Supplementary Volume 2 to Crime in England and Wales 2010/11) Bwletin ystadegol y Swyddfa Gartref 02/12

domestig⁹.

Canfu arolygon yn y DU¹⁰ fod nifer yr achosion o gam-drin domestig mewn perthnasoedd LGBT agos fel arfer yn cyfateb i'r hyn a geir mewn perthnasoedd gwahanrywiol, gyda rhyw un o bob pedwar i un o bob tri unigolyn mewn perthnasoedd LGBT yn profi cam-drin domestig ar ryw adeg. Mae dynion yn fwy tebygol o roi gwybod am drais na menywod. Serch hynny, ni ellir barnu bod y samplau yn arolygon y DU yn gynrychioliadol, ac ni chynhwyswyd ond ychydig gyfranogwyr o Gymru.

Er bod cyfran yr oedolion yng Nghymru sy'n dioddef effaith trais rhywiol yn llawer is na'r rhai sy'n profi cam-drin domestig, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd cynnydd sydyn yng nghyfraddau'r troseddau rhywiol yr adroddwyd amdanynt. Mae datgelu cam-drin hanesyddol yn rhan o hyn, ond mae angen ymateb gwasanaeth ar gam-drin hanesyddol iddo'i hun, ac

⁹ Smith (2012) op cit

¹⁰ Henderson (2003) Prevalence of Domestic Violence among Lesbians and Gay Men: Adroddiad data i Flame TV. Llundain: Sigma Research.

mae datgelu cam-drin rhywiol hanesyddol yn arwain at ddatgelu cam-drin cyfredol. Dim ond 13% o'r holl achosion o drais rhywiol yr adroddwyd amdanynt yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) sy'n destun adroddiad swyddogol i'r heddlu¹¹.

Cyfradd yr achosion o gam-drin pobl hŷn yr adroddwyd amdanynt yng Nghymru oedd 3.1%¹². O ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2011, mae hyn yn cyfateb i ychydig dros 17,000 o bobl hŷn yng Nghymru sy'n profi rhyw fath ar gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn.

5. Mapio Darpariaeth Gwasanaethau ledled Cymru

Mapiwyd yr amrywiaeth o wahanol ymyriadau ac ymatebion yng Nghymru yn erbyn teipoleg gwasanaethau, a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer yr ymchwil hon. Mewn modd tebyg i fodelau eraill o'r fath¹³, roedd fframwaith seiliedig

ar hawliau i'r deipoleg, ac roedd yn tynnu ar yr ymrwymadau i gynnal hawliau i amddiffyniad yn strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel Llywodraeth Cymru.

Mae'r deipoleg yn cwmpasu continwwm o wasanaethau, a aseswyd ar ddwy lefel. Mae Ffigur 1 yn darlunio asesiad y lefel gyntaf, gan ddosbarthu gwasanaethau yn ôl y math o drais sydd i dderbyn sylw (boed yn gam-drin domestig, trais rhywiol, ecsbloetio rhywiol, priodas dan orfod neu arferion traddodiadol niweidiol megis FGM) a'r math o ymateb. Mae'r model yn cydnabod y gallai person brofi sawl math o drais ar yr un pryd, a bod llawer o wasanaethau bellach yn ceisio ymateb i bob un o'r mathau hyn o drais domestig a rhywiol.

Dosbarthir ymatebion gwasanaeth yn y deipoleg i bum prif fath – ataliaeth (cadw trais a chamdriniaeth rhag digwydd yn y lle cyntaf); adnabod ac atgyfeirio'r


¹¹ Smith (2012) op cit

¹² O'Keeffe et al (2007) op cit

¹³ Radford, L. Allnock, D. & Hynes, P. (2014) *Protecting children and adolescents from sexual exploitation and abuse in development and emergency*

contexts: evidence review. Efrog Newydd: UNICEF.

**Ffigur 1 Teipoleg
Ymatebion Gwasanaeth**



Yr ail lefel: Ar ail lefel y deipoleg mae cyfres bellach o ddosbarthiadau manylach yn asesu'r canlynol:

1. Y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth: dioddefydd benyw; dioddefydd gwryw; cyflawnydd; teulu; gweithiwr proffesiynol.
2. Y math o help a gynigiwyd: gwybodaeth; cyngor; eiriolaeth; cyfeillio; addysg; cyllid; hamdden; triniaeth; gofal/meithrin; cymorth ymarferol; cefnogaeth gyfreithiol; llety; hyfforddiant; asesu; cynllunio gweithredu; diogelwch personol a chydlynw.
3. Sector cyflwyno: (1) statudol, preifat, neu wirfoddol; 2) addysg, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol neu iechyd; neu 3) cyfuniad.
4. Gwasanaethau arbenigol neu gyffredinol.
5. Cyrhaeddiad daearyddol: gwledig, trefol neu'r ddau.
6. Lleoliad y cyflwyno (cymuned, clinig, lloches, cartref, ysgol, ar-lein, arall)
7. Faint o ymyrraeth: ei hyd ac amlder y cyflwyno
8. Sail ddamcaniaethol, defnyddio tystiolaeth ymchwil

rhai sy'n dioddef effeithiau;
ymatebion sy'n canolbwyntio ar
ddiogelwch dioddefwyr a'u
hamddiffyn; ymatebion sy'n ceisio
cynyddu diogelwch drwy ddelio
gyda'r cyflawnwyr; ac ymatebion
sy'n cefnogi adferiad ac
ailintegreiddio cymdeithasol.
Cynhwysir ymdrechion cydlynw fel
ymateb gwasanaeth hanfodol yn y
deipoleg. Mae cydlynw'n hwyluso
ymatebion ar draws nifer o
wasanaethau gwahanol, ac
weithiau mae'n cael ei arwain gan

asiantaeth gydlynol neu weithiwr
allweddol dynodedig. Cynhwysir
hyfforddiant yn y maes hwn o fewn
y deipoleg, gan ei fod yn aml yn
ceisio gwella'r cydweithio a'r
cyfathrebu rhwng asiantaethau.
Cafwyd mai gwasanaethau oedd
yn ymateb i gam-drin domestig
oedd amlycaf yng Nghymru, gyda
75% o wasanaethau'n ymdrin â'r
mater hwn. Fodd bynnag, mae'r
canlyniadau'n awgrymu bod llawer
o wasanaethau'n ymdrin ag ystod
ehangach o brofiadau o drais

domestig a rhywiol, yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd 50% yn gweithio gyda thrais rhywiol, 29% gydag ecsbloetio rhywiol a 34% gyda materion priodas dan orfod. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybodaeth ynghylch nifer y cleientiaid â'r anghenion penodol hyn a oedd wedi cael eu helpu, felly mae hyd a lled y profiad o weithio gyda'r materion hyn yn dal yn aneglur. Nod mwyafrif y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru yw rhoi sylw yn bennaf i amddiffyniad di-oed (44%) neu adferiad (22%). Soniodd 14% o wasanaethau mai adnabod achosion oedd eu prif ddiben, ac adroddodd 11% mai eu prif swyddogaeth oedd cydlynu ymatebion a/neu hyfforddiant.

Cymharol ychydig o'r rhai yn yr arolwg (9%) oedd yn gweld gweithio i atal trais rhag digwydd yn y lle cyntaf fel prif gyfrifoldeb iddynt. Mae'n bosib mai'r rheswm am hyn yw bod gwasanaethau wedi cael cais i ddewis un yn unig o'r pum math o ymateb gwasanaeth fel prif faes eu gwaith. Efallai byddai llawer ohonynt wedi cynnwys ataliaeth yn eu hymateb cyffredinol. Roedd ymatebion yr

arolwg o fyd addysg, lle mae llawer o'r gwaith ataliaeth gyda phlant a phobl ifanc yn digwydd, hefyd yn gymharol isel.

Dengys canlyniadau'r arolwg y gellid ehangu gwaith i atal trais yng Nghymru y tu hwnt i fyd addysg i gynnwys ymyriadau cymunedol sy'n hyrwyddo grymuso, hyfforddiant gwrthiant a phendrantrwydd mewn grwpiau agored i niwed. Ychydig o'r mathau hyn o raglenni yr adroddwyd amdanynt yn yr arolwg. Canfu'r adolygiad o'r llenyddiaeth fod prosiectau sy'n tynnu ar adnoddau amddiffynnol sy'n bodoli mewn cymunedau, megis ymyrraeth gwyliedydd yn achos cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn arddangos canlyniadau cynnar addawol. Gellid datblygu'r rhain a'u profi yng Nghymru.

Roedd dros dri chwarter (76%) o'r gwasanaethau'n dweud eu bod yn agored i weithio gyda dioddefwyr benywaidd, a 41% gyda dioddefwyr gwrywaidd. Roedd ychydig dros hanner (51%) yn gweithio gyda theuluoedd. Roedd ychydig o dan chwarter (23%) yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol, a 23%

gyda'r cyhoedd. Er bod cyfran fawr o wasanaethau'n diffinio'u swyddogaeth yn nhermau amddiffyniad, cymharol ychydig o'r gwasanaethau oedd yn dweud eu bod yn gweithio gyda chyflawnwyr gwryw (16%) a/neu fenyw (13%) trais.

Mae ystod eang o wahanol fathau o gymorth yn cael eu darparu gan asiantaethau yng Nghymru, o gyngor a gwybodaeth i help ymarferol neu wasanaethau llety. Cydlynu mynediad i wasanaethau eraill oedd y math o help y cyfeiriwyd ato amlaf (69%). Er y gall cydlynu leihau'r angen i ddioddefwyr ddod i gysylltiad ag asiantaethau lluosog, gall gweithgaredd o'r fath leihau'r amser sydd ar gael i wneud gwaith uniongyrchol gyda dioddefwyr neu gyflawnwyr, a gall rhwydweithiau neu ganolbwyntiau gwybodaeth cenedlaethol fod o gymorth yma. Dywedodd rhyw ddau draean o ymatebwyr yr arolwg fod eu sefydliadau'n cynnig gwybodaeth a/neu gyngor a gwaith ar ddiogelwch personol, tra bod tua hanner yn adrodd am ddarparu asesiad, cynllunio gweithredu, eiriolaeth a/neu gymorth ymarferol.

Roedd tua thraean yn cynnig triniaeth, addysg, hyfforddiant, llety cymorth cyfreithiol a/neu gymorth ariannol. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un math o gymorth yr oedd eu gwasanaethau'n ei ddarparu.

Roedd 37% o'r gwasanaethau a ymatebodd i'r arolwg yn y sector cyhoeddus, ac roedd 48% yn gyrrff sector gwirfoddol, gyda'r gweddill yn bennaf yn wasanaethau preifat neu'n bartneriaethau. Mae tuedd i wasanaethau arbenigol gael eu lleoli yn y sector gwirfoddol, ac roedd 47% o'r gwasanaethau a ymatebodd i'r arolwg yn wasanaethau trais domestig a rhywiol arbenigol, gyda 38% yn wasanaethau cyffredinol.

Bu'r arolwg yn holi ymatebwyr ynghylch yr ardaloedd daearyddol yr oedd eu gwasanaethau'n eu cwmpasu. Cyfrifwyd dosbarthiad cyfrannol gwasanaethau ar draws y rhanbarthau. Darperir tua thraean o'r gwasanaethau a ymatebodd i'r arolwg yn rhanbarth Gogledd Cymru. Mae hyn yn annisgwyl, gan fod dwy ddinas fwyaf Cymru, lle ceir y dwysedd poblogaeth uchaf, yn y De, tra bod y canolbarth yn

cynnwys yr ardal fwyaf o dir, ac yn cynnwys tri o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Mae'n bosibl i'r arolwg gael ei ddosbarthu'n well ac ennyn mwy o ddiddordeb yng Ngogledd Cymru, ond nid oes gennym dystiolaeth o hynny.

Roedd mwyafrif y gwasanaethau (55%) yn gweithio mewn ardal oedd yn cyfuno lleoliadau trefol a gwledig, gyda 18% mewn ardaloedd gwledig a 27% mewn mannau trefol.

Roedd hyd ymyrraeth gwasanaeth yn amrywio yn ôl ei fath. Dywedodd 35% o ymatebwyr yr arolwg, oedd yn bennaf yn darparu gwasanaethau cefnogi i ddioddefwyr, eu bod yn darparu gwasanaeth 'yn ôl y galw'. Roedd ymyriadau strwythuredig, sy'n dilyn protocolau neu gwricwla rhagnodedig, yn fwy tebygol o fod yn amser-gyfyngedig.

Nododd nifer o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yr oeddent yn ei ddarparu yn cael ei hysbysu gan theori ac ymchwil ffeministaidd, gan gynnwys cyfeiriadau at fodel Duluth a modelau rheoli gorfodol. Ymhlith y gwasanaethau eraill, a oedd yn

cael eu hysbysu'n bennaf gan fodelau damcaniaethol, oedd gwasanaethau therapiwtig a iechyd meddwl, a oedd yn cyfeirio at amrywiol fodelau ymyrraeth seicogymdeithasol a seico-ddeinamig. Dywedodd rhai ymatebwyr mai dealltwriaeth bod angen lleol heb dderbyn ymateb oedd y rhesymeg y tu ôl i'w gwasanaeth. Roedd rhai sefydliadau'n darparu ymyrraethau a oedd wedi cael eu peilota neu eu gwerthuso mewn ardaloedd eraill. Roedd mwyafrif o'r gwasanaethau (60%) yn honni eu bod wedi defnyddio boddhad defnyddwyr a monitro canlyniadau unigol (56%) i werthuso'u heffaith. Dim ond 31% oedd wedi gwneud unrhyw werthuso cyn y prawf ac ar ei ôl.

Mae lefelau addysg a hyfforddiant staff yn y sector hwn yn amrywio cryn dipyn, a chadarnhawyd hyn gan y grwpiau ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth.

Dywedwyd bod gan lai na 24% o'r staff gymwysterau lefel raddedig, ôl-raddedig neu broffesiynol.

Adroddodd ychydig dros hanner y gwasanaethau (53%) fod defnyddwyr gwasanaeth yn destun ymgynghori neu'n ymwneud â

datblygiad y gwasanaeth, ond nid oedd 45% o wasanaethau'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn narpariaeth gyfredol y gwasanaeth.

Llai na chwarter y gwasanaethau (24%) a ddisgrifiwyd fel rhai oedd â chyllid diogel. Disgrifiodd traean o'r rhai a ymatebodd eu trefniadau ariannu fel rhai tymor byr, ansicr.

6. Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth a Rhanddeiliaid

Ymgynghorwyd â 53 o ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu profiadau o gael hyd i gymorth yng Nghymru. Archwiliwyd barn rhanddeiliaid ar wasanaethau trwy 31 o gyfweiliadau (23 gyda darparwyr gwasanaeth ac 8 gydag arweinyddion strategol cenedlaethol a rhanbarthol sy'n cyflawni rolau comisiynu neu bolisi). Yn yr un modd ag mewn ymchwil debyg, dywedodd y defnyddwyr gwasanaeth y cynhaliwyd cyfweiliadau â hwy eu bod yn gwerthfawrogi bod gwasanaethau trais domestig a rhywiol arbenigol ar gael.

"Heb Cymorth i Fenywod, rwy'n credu y byddem ni i gyd allan ar y stryd... mae'n fater o'r gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ganddyn nhw hefyd." (Defnyddiwr Gwasanaeth)

Roedd llawer o fenywod yn amharod i droi at asiantaethau statudol; nid oeddent yn hyderus na fyddai gwybodaeth yn cael ei rhannu heb iddynt wybod neu heb iddynt gymeradwyo hynny ymlaen llaw, ac roeddent yn meddwl y gellid dehongli cais am help fel arwydd eu bod yn 'methu ymdopi', ac y byddai goblygiadau i'w rôl fel rhieni yn sgîl hynny. Ymhellach, nodwyd bod amrywiadau ymhlith ymarferwyr mewn gwasanaethau statudol yn golygu ei fod yn anodd rhagfynegi pa ymateb a gaent. Serch hynny, roedd yr heddlu a'r ysbytai yn aml yn cael eu nodi fel pwynt cyswllt cyntaf. Roedd diffyg cyfieithwyr ar y pryd da ar gyfer pobl nad oedd y Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, yn arbennig mewn lleoliadau ieuchyd, ac roedd diffyg ymddiriedaeth yn y rhai yr oedd y Swyddfa Gartref yn eu darparu.

Pryderon allweddol a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid oedd hygyrchedd, lleoliad a'r stigma cysylltiedig â

gwasanaethau. Rhennid pryder hefyd ynghylch mynediad gwael i fenywod o Leiafrifoedd Du Ethnig a Ffoaduriaid (BMER). Thema gyffredin oedd methu â pharu'r ddarpariaeth â'r angen, a nodwyd dau fath o fwllch: bylchau cyffredinol oedd yn berthnasol i bawb a bylchau cyfiawnder oedd yn ymwneud â grwpiau penodol megis menywod mewn ardaloedd gwledig, menywod anabl, dioddefwyr gwryw a menywod ag anghenion ychwanegol megis materion camddefnyddio alcohol. Y bylchau o ran gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt amlaf gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedd llety mewn lloches, yn arbennig llochesi arbenigol ar gyfer menywod BMER. Nododd rhanddeiliaid fylchau amlwg yn y gwasanaethau ar gyfer oedolion benyw a gwryw a oedd wedi goroesi camdriniaeth yn ystod eu plentyndod, gwasanaethau yn y gymuned i gyflawnwyr; barnwyd bod cwrmpas y gwasanaeth yng ngogledd Cymru'n wael o'i gymharu â'r hyn a geid yn y De. Roedd y sylw olaf hwn mewn cyferbyniad amlwg â chanfyddiadau'r arolwg, lle gwelwyd cydbwysedd yn y

ddarpariaeth rhwng y De a'r Gogledd.

Er i nifer o randdeiliaid gyfeirio at y cynnydd mewn dioddefwyr gwryw, ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth eu bod yn defnyddio gwasanaethau. Disgrifiodd un cyfwelai loches benodol ar gyfer dioddefwyr gwryw na chafwyd un atgyfeiriad iddi yn ystod y flwyddyn flaenorol:

"Agorwyd y gwasanaeth hwnnw i ddynion, ond ni chafwyd un atgyfeiriad gwryw, sy'n ddiddorol iawn. Doedden ni ddim yn disgwyl degau ohonyn nhw, ond yn sicr roedden ni wedi disgwyl derbyn rhai atgyfeiriadau, ond does dim un wedi dod yn ystod y flwyddyn." (Darparwr 20)

Roedd defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid fel ei gilydd yn barnu bod anghenion dynion yn debygol o fod yn wahanol i rai menywod, a nodwyd bod angen i wasanaethau gymryd hynny i ystyriaeth cyn ehangu eu cylch gorchwyl i ddarparu ar gyfer dioddefwyr benyw a gwryw.

Fel y cafwyd yn achos ymchwil arall gyda goroeswyr, roedd y menywod yr ymgynghorwyd â hwy yng Nghymru am gael ymateb prydlon gan wasanaethau, ac roedden nhw'n gosod gwerth ar

weithwyr proffesiynol oedd yn eu trin â pharch ac yn cadw cyfrinachedd. Pwysleisiwyd hygyrchedd gwasanaethau a llinellau cymorth 24 awr. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth am weld hysbysebu ehangach a mwy agored ar wasanaethau sy'n ymdrin â thrais yn erbyn menywod, ac roeddent yn nodi y gallai mwy o hysbysebu helpu i newid agweddau'r cyhoedd hefyd. Pwysleisiodd defnyddwyr gwasanaeth yr angen am hyfforddi pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys ymarferwyr mewn gwasanaethau cyffredinol megis iechyd a thai. Bernid ei bod yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth arbenigol a chymorth ar gael i'r holl staff yng nghyswllt materion cymhleth fel budd-daliadau a thai.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yn gweld Siopau dan yr Unto fel adnodd gwerthfawr, a theimlid eu bod yn werthfawr mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, codwyd rhai cwestiynau ynghylch yr amrywiadau yn ansawdd y gwasanaeth mewn Siopau dan yr

Unto ledled Cymru.

Roedd anawsterau wrth gael hyd i lety diogel yn peri pryder i fenywod na allent gyrchu arian cyhoeddus, ac i fenywod oedd mewn cyflogaeth am dâl. Roedd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth yn cytuno ei fod yn anodd cael hyd i dai amgen, fforddiadwy, a bod angen mwy o ymwybyddiaeth o anghenion tai teuluoedd sy'n wynebu cam-drin domestig.

Nododd rhanddeiliaid fod canlyniadau cadarnhaol a negyddol i'r ffocws ar asesu a rheoli risgiau yn achos cam-drin domestig.

Roedd MARACs yn darparu enghreifftiau cadarnhaol o ffocws ar risg, er y gallai sicrhau bod Meddygon Teulu yn ymgysylltu â MARACs, achosi anawsterau.

Canlyniad negyddol oedd crynhoi adnoddau ar achosion risg uchel, i bob golwg ar draul menywod yr aseswyd eu bod yn wynebu risg lefel is. Roedd rhoi cyfweleion yn gobeithio y byddai'r Canolbwyntiau Diogelu Amlasiantaeth (MASHs) yn ymdrin yn well â risgiau lefel is, ac yn eu hatal rhag esgaladu.

Nododd y rhanddeiliaid nifer o

enghreiffiau o arfer arloesol yn y gwaith gyda menywod a chyflawnwyr yng Nghymru. Ymhlith y rhain roedd Siop dan yr Unto gyda chyfleusterau campfa; argraffu rhifau'r Llinell Gymorth ar slipiau cyflog holl weithwyr y GIG a Llywodraeth Cymru; datblygu arferion gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans a pheilot Body Cam y corff (lle mae gan heddwision gamerâu ynghlwm wrth eu gwisg pan fyddant yn ymateb i ddigwyddiad cam-drin domestig).

Fel yn achos y gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg, cododd y rhanddeiliaid lawer o bryderon ynghylch cyllido ansicr ar gyfer gwasanaethau trais domestig a rhywiol. Daw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau trais domestig a rhywiol yng Nghymru o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ond nodwyd diffyg cyllid sicr, hir dymor, a fyddai'n hwyluso cynllunio'r gwasanaeth ac yn cyfrannu at sefydlogrwydd gan feithrin arbenigedd y gweithlu, fel problem arwyddocaol ar gyfer y sector hwn. Gwelid estyn comisiynu ar y cyd, yn enwedig gyda iechyd yn bartner,

fel ffordd bosibl ymlaen.

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid hefyd y gallai datblygu safonau gofynnol ar gyfer y gwasanaeth wella ei ansawdd, mewn cyfnod pan yw'r adnoddau'n brin ac yn lleihau, ac effeithlonrwydd wrth gydweithio.

"Rwy'n credu y byddai'n llawer gwell petaem ni'n gallu cychwyn o'r dechrau a gofyn, pa wasanaethau mae arnom ni eu hangen?...beth sydd ei angen arnom ni, a gadewch i ni gomisiynu gwasanaethau ar y cyd i wneud yn siŵr, oherwydd ar hyn o bryd, rydym ni'n rhoi ag un llaw ac yn cymryd yn ôl â'r llall. Rydym ni'n ceisio rhoi'r darnau yn ôl at ei gilydd yn barhaus"
(Darparwr 16)

7. Ymatebion Gwasanaeth a Thystiolaeth ynghylch eu Heffeithiolrwydd

Cwblhawyd adolygiad lled-systemataidd o'r ymchwil academiaidd a gyhoeddwyd ac adroddiadau nad oeddent yn academiaidd ('llynyddiaeth lwyd') er mwyn cywain tystiolaeth ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael a pha rai sy'n fwyaf effeithiol o ran atal trais domestig a rhywiol ac ymateb iddynt. Yn dilyn chwiliad trylwyr o'r prif gronfeydd data ymchwil electronig a sgrinio ar gyfer

perthnasedd ac ansawdd,
adolygwyd 397 o ddogfennau.

Yn fyd-eang ac ar draws y DU,
mae'n eglur bod ystod eang o
wasanaethau'n cael eu cyflwyno ar
hyn o bryd er mwyn atal trais
domestig a rhywiol ac ymateb
iddynt. Mae llawer o'r ymyriadau a
ddisgrifir yn y llenyddiaeth a
gyhoeddwyd yn deillio o UDA, er
bod yr ymyriadau yn achos FGM a
thrais seiliedig ar anrhydedd yn fwy
tebygol o fod wedi datblygu mewn
cenhedloedd incwm isel. Un o'r
anawsterau gyda'r llenyddiaeth hon
yw diffyg perthnasedd neu
addasrwydd rhaglenni i gyd-destun
Cymru.

Mae diffyg tystiolaeth gref o blaid
unrhyw ymyriad penodol neu becyn
o ymatebion. Fodd bynnag, mae
rhai astudiaethau ansawdd uchel
yn bodoli sy'n awgrymu bod rhai
ymatebion gwasanaeth yn fwy
tebygol o fod yn effeithiol.

Canfuwyd mwy o dystiolaeth yn
ymdrin ag ymatebion amddiffyn ac
adfer na mathau eraill o ymatebion.
Hyd yma, nid oes fawr ddim
tystiolaeth gadarn ynghylch
effeithiolrwydd gwahanol ddulliau o
gydweithio a chydlynio ymatebion

gwasanaeth a chymuned, felly mae
hynny'n amlwg yn flaenoriaeth wrth
ddatblygu ymchwil yn y dyfodol.

Ceir y dystiolaeth ymchwil gryfaf yn
achos gwasanaethau eiriolaeth
cam-drin domestig i fenywod a
rhaglenni atal trais a gyflwynir
mewn ysgolion. Mae tystiolaeth
gymharol gryf o blaid gwaith
ataliaeth wedi'i dargedu gyda
grwpiau sydd mewn perygl neu
sy'n agored i niwed yn y gymuned,
gan ddangos gwelliannau o ran yr
wybodaeth a'r agweddau at drais
ymhlith derbynyddion gwasanaeth.
Mae rhai rhaglenni ataliaeth mewn
ysgolion yn arddangos effaith
gyfyngedig o ran lleihau ymddygiad
treisgar. Er eu bod yn cael eu
ffafrio'n gyffredinol fel strategaeth
atal gan lywodraethau, mae'r
dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd
ymgyrchoedd yn y cyfryngau yn
anghyson, gydag astudiaethau'n
amlygu effeithiau cymysg.

Mae'r 'llenyddiaeth lwyd' yn
darparu peth tystiolaeth ynghylch
effeithiolrwydd ymatebion
integredig i drais rhywiol trwy
fodelau megis y Canolfannau
Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
(SARCs).

Mae Siopau dan yr Unto sy'n gweithio gyda cham-drin domestig yn elfen bwysig yn y tirlun gwasanaethau yng Nghymru, ac mae defnyddwyr a rhanddeiliaid yn gosod gwerth arnynt, ond nid cyd-leoliad yw unig nodwedd model cydlynus. Mae nodweddion effeithiol modelau cydlynus yn cynnwys partneriaethau, cydweithio cymunedol, protocolau rhannu gwybodaeth, a dyrannu rolau a rheoli achosion yn glir.

Mae tystiolaeth gymedrol i gefnogi cyflwyno rhaglenni cymunedol ar gyfer cyflawnwyr gwryw cam-drin domestig os yw'r rhain yn cynnwys strategaethau ar gyfer cynnal diddordeb y cyfranogwyr a'u symbylu'n barhaus. Mae'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau i droseddwyr rhyw yn wan ac yn amwys.

Prin iawn yw'r dystiolaeth ynghylch ymatebion effeithiol i briodas dan orfod, FGM, masnachu pobl ac ecsbloetio rhywiol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth o blaid effeithiolrwydd ymatebion mewn lleoliadau ieched i adnabod a chefnogi menywod sydd wedi

profi FGM. Gellid datblygu hyn ymhellach ar safleoedd dethol yng Nghymru.

Mae cyfle i gynnig ymatebion adferol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob math o drais, er enghraifft, gwaith cwnsela neu therapiwtig, trwy eu lleoli mewn lleoliadau ieched cyffredinol. Mae tystiolaeth dda o blaid defnyddio ymyriadau therapi ymddygiad gwybyddol i drin dioddefwyr mewn oed sydd â symptomau trawma, pryder ac iselder. Yn achos rhai mathau penodol o drais, megis ymosodiadau rhywiol ac FGM, gall y gwasanaethau adferol ymestyn yn ehangach pan fyddant yn bodoli ochr yn ochr â gwasanaethau adnabod a chyfeirio ategol.

Mae'r prinder difrifol o ymchwil werthuso gadarn ynddo'i hun yn ganfyddiad arwyddocaol o'r astudiaeth hon. Dylid ystyried o ddifri gomisiynu a chynnal ymchwil ansawdd uchel yng Nghymru ar effaith yr ymyriadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i atal trais domestig a rhywiol ac ymateb iddynt.

8. Casgliadau ac Argymhellion

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn broblemau cymhleth, eang, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd cydnabod eu hyd a'u lled, eu natur a'u canlyniadau yn gyffredinol¹⁴.

Wrth gomisiynu'r ymchwil hon, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymateb i'r her o gael hyd i ffyrdd o sicrhau effaith wirioneddol o ran dileu'r mathau yma o drais, a lleihau'r niwed a achosir ganddynt.

Dyma'r prif argymhellion ar gyfer symud ymlaen gyda'r prosiect hwn. Fe'u trafodir yn fanwl yn yr adroddiad ymchwil llawn:

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad manwl o'r data CSEW (a adwaenid gynt fel Arolwg Troseddu Prydain) ar lefel yr ardal leol, er mwyn casglu data mwy penodol ar gyfer Cymru a'i rhanbarthau.

¹⁴ Krug, et al. 2002 (gol.) (2002). World report on violence and health. Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd; Walby, S. (2004) The Cost of Domestic Violence, DTI Women and Equality Unit; Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Right to be Safe*, www.cymru.gov.uk Ar gael o: <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/commsafety/100325besafefinalenv1.pdf>

Argymhelliad 2: Yng ngoleuni'r bylchau yn y data presennol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cydweithio'n agos â'r llinellau cymorth y mae eisoes yn eu hariannu, a chyda llinellau cymorth eraill, yng Nghymru neu'n genedlaethol, i gasglu data galwadau am gymorth/help sy'n gysylltiedig â thrais a cham-drin mewn grwpiau LGBT, FGM, trais seiliedig ar anrhydedd, priodas dan orfod a masnachu pobl at ddibenion ecsbloetio rhywiol.

Argymhelliad 3: Mewn cyd-destun lle mae diffiniadau a mathau newydd o gam-drin yn dod i'r amlwg, mae'n bwysig pwysleisio mai cam-drin domestig yw'r math amlycaf o gam-drin, o bell ffordd, sy'n derbyn sylw yn yr adroddiad hwn, a dylai gwasanaethau barhau i adlewyrchu hynny.

Argymhelliad 4: Dylid annog sefydliadau sydd â gwybodaeth ac arbenigedd yn y mathau hynny o drais a cham-drin sy'n llai amlwg, neu lle gwyddys llai am eu hamlygrwydd, i gadw'r wybodaeth honno ac adeiladu arni. Mae hyn yn cynnwys arbenigedd ym meysydd trais rhywiol, FGM, trais

seiliedig ar anrhydedd, priodas dan orfod a masnachu pobl at ddibenion ecsbloetio rhywiol, yn ogystal â sgiliau wrth weithio gyda chymunedau penodol megis grwpiau LGBT, pobl hŷn a chymunedau BME.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer yr ymyriadau hynny y ceir tystiolaeth dda yn eu cylch, megis gwasanaethau IDVA a rhaglenni ataliaeth mewn ysgolion, yn ddiogel ac ar gael yn barhaus, heb wynebu newidiadau yn sgîl amrywiadau mewn cyllidebau lleol.

Argymhelliad 6: Mae'r dystiolaeth ynghylch sgrinio ar gyfer cam-drin domestig yn dangos bod angen rhoi sylw i ba leoliad y gwelir y menywod ynddo, a pha grwpiau sy'n cael eu sgrinio. Mae tystiolaeth i gefnogi sgrinio yn y gwasanaethau mamolaeth, ond mewn lleoliadau ieuchyd a gofal cymdeithasol eraill, cynghorir gwneud ymholiadau sy'n targedu'r rhai y mae arwyddion y gallai hyn fod yn briodol ar eu cyfer. Mae angen i'r polisi Gofyn a Gweithredu gael ei gefnogi gan hyfforddiant, llwybrau atgyfeirio a diwylliant

trefniadol cefnogol.

Argymhelliad 7: Mae'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr ym maes cam-drin domestig yn dal i ddatblygu yn y DU. Ar yr adeg hon yn natblygiad y sylfaen o dystiolaeth, nid oes un model penodol i'w weld yn sefyll allan, felly anogir gweithredu a phrofi ystod o raglenni cyflawnwyr yng nghyd-destun Cymru.

Argymhelliad 8: O ystyried y diffyg tystiolaeth o blaid effeithiolrwydd ymyriadau cyfredol i droseddwr rhyw, mae angen datblygu dulliau a modelau newydd ar gyfer gwaith yn y grŵp hwn; mae angen arloesi a phrofi yn y maes hwn.

Argymhelliad 9: Dylid cyflwyno ymatebion amddiffynnol i FGM mewn lleoliadau ieuchyd, neu eu cysylltu â hwy. Lleoliadau ieuchyd megis gwasanaethau mamolaeth yw'r rhai lle mae eu canfod yn fwyaf tebygol, a lle mae tystiolaeth dda dros ymyriadau meddygol sy'n hybu adferiad.

Argymhelliad 10: Yn ogystal â rhoi rhaglenni ataliaeth ar waith mewn ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru

ystyried peilota rhaglenni ataliaeth cymunedol, megis rhaglenni Bystander.

Argymhelliad 11: Dylai

Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant ar gael i staff yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth wrth weithio ym maes priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, FGM a masnachu pobl at ddibenion ecsbloetio rhywiol. Mae sicrhau mynediad hwylus at rai sydd â gwybodaeth arbenigol yn y meysydd hyn yn ffordd arall o wella gwybodaeth a sgiliau ar draws gwasanaethau.

Argymhelliad 12: Dylai

Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau addysg uwch a hyfforddiant i gefnogi'r nod o sicrhau gweithlu medrus yn y sector hwn ledled Cymru.

Argymhelliad 13: Dylai

Llywodraeth Cymru symud ymlaen i ddatblygu ei chynlluniau ar gyfer Canolbwynt Cymru Gyfan neu rwydwaith gwybodaeth a fyddai'n ymgymryd â'r dasg o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau

a/neu fynediad iddynt i weithwyr proffesiynol ac i'r rhai sy'n ceisio help.

Argymhelliad 14: Byddai cynnig

contractau tymor hwy i ddarparwyr yn cynyddu sefydlogrwydd a chapasiti'r sector. Dylid cydnabod costau uwch darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig mewn contractau a grantiau.

Argymhelliad 15: Gellid datblygu

gweithgaredd comisiynu ar y cyd ymhellach yng Nghymru, gan gynnwys iechyd, ond hefyd gan ddod ag ystod o asiantaethau a sefydliadau at ei gilydd mewn trefniadau ariannu. Mae rhaglenni cyflawnwyr yn cynrychioli gwasanaeth lle gallai gwahanol fodolau comisiynu ar y cyd gael eu peilota a'u gwerthuso, a lle gallai perchnogaeth ryngasiantaeth gyfrannu at gadernid yr ymyrraeth. Gallai estyn comisiynu ar y cyd gyfrannu at greu sector mwy cydlynus, dileu dyblygu ac arbed costau.

Argymhelliad 16: Dylid diogelu

arbenigedd o ran darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n profi

trais rhywiol, a dylid cael hyd i ffyrdd o sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth hyn ar gael i sefydliadau eraill a all ddod ar draws profiad o drais rhywiol fel rhan o'u cylch gorchwyl ehangach.

Argymhelliad 17: Yn yr un modd, mae angen rhannu gwybodaeth a sgiliau arbenigol o ran ymyrryd mewn priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, masnachu pobl at ddibenion rhywiol ac FGM ar draws sefydliadau trwy ganolbwyntiau neu rwydweithiau gwybodaeth.

Argymhelliad 18: Mae gan wasanaethau cyffredinol megis iechyd, addysg a'r heddlu rôl allweddol i'w chwarae wrth adnabod dioddefwyr trais a chamdriniaeth, wrth ddarparu ymyrraeth gynnar gyfer y rhai sy'n wynebu risg isel neu ganolig, ac wrth gyfeirio ymlaen at wasanaethau arbenigol perthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi gweithredu Canllawiau NICE¹⁵ ar yr ymateb iechyd a gofal

¹⁵ NICE (2014) Domestic Violence and Abuse: how health services and social care and the organisations they work with can respond effectively. Canllaw Iechyd Cyhoeddus NICE 50. <http://www.nice.org.uk/nicemedia/live/14384/66668/66668.pdf>

cymdeithasol i gam-drin domestig, gan fod y Canllawiau hyn yn edrych yn debygol o ddarparu cymhelliad cryf i'r ystod lawn o wasanaethau iechyd ymgysylltu'n llawnach â materion cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. Byddai penodi Hyrwyddwr GIG ar gyfer Gwrthweithio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gyda chyfrifoldeb am weithredu Canllawiau NICE yng Nghymru, yn un ffordd o gyflawni hyn.

Argymhelliad 19: Mae hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer staff yn y gwasanaethau cyffredinol rheng flaen, sy'n ymwneud ag adnabod ac atgyfeirio, yn ogystal ag ymyrraeth gynnar. Dylai'r cyfryw hyfforddiant roi sylw i agweddau ac ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth yn ddiogel a gwybodaeth am wasanaethau lleol, yn ogystal â llwybrau atgyfeirio lleol a phrotocolau.

Argymhelliad 20: Mae pryderon ynghylch diogelwch wedi golygu'n draddodiadol nad yw gwasanaethau i ddioddefwyr trais a chamdriniaeth wedi cael eu hysbysebu'n eang. Mae

defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn awr yn awgrymu bod angen proffil cyhoeddus mwy gweladwy ar y sector, a gellid profi hysbysebu ehangach trwy brosiectau peilot.

Argymhelliad 21: Mae

defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol eraill yn ymateb yn gadarnhaol i'r Siopau dan yr Unto. Nid oes llawer o werthusiadau trylwyr o'u gwaith, ac mae Siopau dan yr Unto Cymru yn cynnig cyfle i brofion o'r fath gael eu rhoi ar waith.

Argymhelliad 22: Mae angen

ystyried yn ofalus pa wasanaethau allai gael eu cyflwyno ar-lein a pha rai wyneb yn wyneb. Argymhellir ymgynghori ymhellach â defnyddwyr gwasanaeth ar y mater hwn.

Argymhelliad 23: Mae angen

gwneud mwy i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yr holl asiantaethau yn y sector hwn, i weithio gyda'r boblogaeth BMER. Gallai sefydliadau sydd â sgiliau arbenigol ac arbenigedd ym maes gweithio gyda grwpiau BMER chwarae rhan ganolog wrth ledaenu sgiliau a gwybodaeth trwy hyfforddiant neu

trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael o dan y Consesiwn Amddifadedd Trais Domestig (DDV)¹⁶.

Argymhelliad 24: Mae angen

sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd proffesiynol yn fwy hygyrch, ac mae angen hyfforddi cyfieithwyr ar y pryd yn briodol, a chreu cysylltiad agosach rhyngddynt a gwasanaethau arbenigol sy'n gweithio ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.

Argymhelliad 25: Mae angen

datblygu protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ddiogel ym mhob achos, nid achosion risg uchel yn unig, mewn ymgynghoriad â defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae angen i'r cyfryw brotocolau adeiladu ar y modelau presennol sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd, a dylid eu rhoi ar waith ym maes gwasanaethau cyffredinol yn

¹⁶ Mae Consesiwn DDV yn caniatáu mynediad i fudd-daliadau i ddioddefwyr sy'n dianc rhag cam-drin domestig os ydynt ar fisa eu priod, tra'u bod yn cyflwyno hawliad am ganiatâd diderfyn i aros yn y wlad.

ogystal â rhai arbenigol.

Argymhelliad 26: Dylai

gwasanaethau fabwysiadu dulliau perthnasol ac ystyrlon o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau. Anogir Llywodraeth Cymru i gasglu a lledaenu enghreifftiau arfer da o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yn y sector hwn.

Argymhelliad 27: Dylai

awdurdodau lleol yng Nghymru ddatblygu log o wasanaethau ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yn eu hardal, sy'n cydnabod y cysylltiadau rhwng gwasanaethau ac yn nodi'r bylchau. Dylai gynnwys amcangyfrif o gapasiti neu gynhwysedd y gwasanaeth. Mae cyfle hefyd i gysylltu data ynghylch nifer yr achosion er mwyn gwella'r wybodaeth ynghylch y galw am wasanaethau ar lefel awdurdodau lleol.

Argymhelliad 28: Mae angen

gwneud mwy i ddatblygu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer ymyriadau; yn ogystal â phrofi ymyriadau penodol megis rhaglenni cyflawnwyr, gellid

cyflawni hyn trwy fynd ati i fonitro canlyniadau unigol neu grynhoi dadansoddiad o'r data yn ôl contractau neu arian grant. Fodd bynnag, byddai angen i oblygiadau cost y gwaith hwn gael eu cydnabod.

Argymhelliad 29: Dylid gwneud

mwy o ymchwil gyda goroeswyr a defnyddwyr gwasanaeth diweddar, i ganfod eu gwerthusiadau o wasanaethau newydd a phenodol, er enghraifft, gwasanaethau i gymunedau LGBT, FGM, priodas dan orfod, masnachu pobl a thrais ar sail anrhydedd.

Awduron

Vashti Berry, Nicky Stanley,
Lorraine Radford, Melanie McCarry
a Cath Larkins

Canolfan Connect, Prifysgol Canol
Lancashire

ISBN 978-1-4734-1341-2